Hunanwerthuso Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Addysg Lleol 2014

Fersiwn Derfynol
12 Rhagfyr 2014

Crynodeb

Credwn yn gyffredinol fod ansawdd presennol y Gwasanaethau Addysg yn dda a bod y gallu i wella deilliannau hefyd yn dda.

Pa mor dda yw'r gwasanaeth?

Nodweddion Rhagorol

- ✓ Perfformiad ysgolion uwchradd Abertawe yng nghyfnod allweddol 4 ar draws amrywiaeth o ddangosyddion o'i gymharu ag ysgolion tebyg;
- ✓ Perfformiad arolygiad ysgol cyffredinol o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill.

Nodweddion da

- ✓ Mae cyfraniad addysg at berfformiad blaenoriaethau strategol allweddol y cyngor, sef gwella cyrhaeddiad a chyflawniad a lleihau tlodi, wedi bod yn gryf eleni.
- ✓ Mae perfformiad yn gwella ym meysydd allweddol cyrhaeddiad, presenoldeb, cynhwysiad a rheoli'r isadeiledd. Mae safleoedd cenedlaethol yn gyffredinol ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer dangosyddion allweddol perfformiad neu'n well na hynny.
- ✓ Mae perfformiad yn arbennig o dda ar 16 oed ym mhrif ddangosydd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Mae Abertawe yn y 7^{fed} safle yng Nghymru o'i gymharu â safle prydau ysgol am ddim sef 14.
- ✓ Cyflawnodd pump o'r ysgolion â'r ganran uchaf o brydau ysgol am ddim eu canlyniadau gorau erioed eleni.
- ✓ Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella o dros un neu 1.3 pwynt canran yn eu tro. Mae hyn yn cyfateb i ddisgyblion yn bresennol am dros 80,000 o ddiwrnodau'n fwy na'r llynedd.
- ✓ Mae Estyn wedi barnu dros dro bod addysg oedolion yn dda a dysgu cymunedol yn rhagorol.
- ✓ Gwneir cynnydd da yn erbyn cynllun gweithredu ôl-arolygiad Arolygiad Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc 2013.
- ✓ Mae gan yr ALl hanes da o reoli lleoedd dros ben mewn ysgolion Saesneg wrth ddarparu lleoedd Cymraeg drwy raglen AoS 2020.
- ✓ Mae trefniadau diogelu yn gadarn a chânt eu monitro'n ofalus;
- ✓ Mae cynlluniau gwasanaeth a thîm yn cysylltu'n dda a blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth a chorfforaethol.

Meysydd i'w datblygu*

- Gwella perfformiad meincnod ysgolion yn 7, 11 a 14 oed;
- Lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion prif ffrwd;
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth yn yr unedau cyfeirio disgyblion uwchradd;
- Lleihau pobl ifanc NEET 16 oed
- Parhau i weithio i wella presenoldeb cynradd ac uwchradd.

A fydd y gwasanaeth yn gwella?

Ffactorau sy'n debygol o gefnogi gwelliant:

- ✓ Mae arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion ym maes addysg yn gryf;

- ✓ Mae blaenoriaethau addysg yn glir iawn ac yn cefnogi cyflwyno'r agenda gorfforaethol yn dda;
- ✓ Mae atebolrwydd gwleidyddol a swyddogion a chraffu ar berfformiad yn yr Adran Addysg yn gadarn;
- ✓ Caiff y tîm gwella addysg newydd ei arwain yn dda ac mae'n cyfrannu'n gadarnhaol at berthnasoedd rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion

Y ffactorau sy'n debygol o rwystro gwelliant*:

- Penderfyniadau anodd ynghylch y gyllideb yn y tair blynedd nesaf;
- Toriadau cyllidebol digynllun gan Lywodraeth Cymru; ag
- Agenda addysg ranbarthol nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a'r angen am adnoddau.

Argymhellion

1. Gwella perfformiad meincnod ysgolion yn 7, 11 a 14 oed;
2. Parhau i wella perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim;
3. Parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion;
4. Lleihau pobl ifanc NEET 16 oed;
5. Datblygu'r strategaeth cefnogaeth ysgol i ysgol ymhellach;
6. Adolygu'r Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig;
7. Ailstrwythuro Addysg mewn Lleoliad Heblaw yn yr Ysgol;
8. Adolygu cyflwyno Hyfforddiant Cyflogaeth a'i ddichonoldeb ariannol;
9. Parhau â'r Adolygiad Gweinyddu Busnes.

*__Dylai meysydd i'w datblygu a ffactorau sy'n rhwystro gwelliant fod yn y cynllun busnes.__

Cwestiwn Allweddol 1 – Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1 Safonau

- Mae hanes o welliant parhaol i ddeilliannau dysgwyr.
- Mae perfformiad ar draws yr awdurdod yng Nghyfnod Allweddol 2, 3 a 4 yn parhau i wella ac yn cymharu'n ffafriol â Chymru gyfan. Mae'r perfformiad cryfaf yng Nghyfnod Allweddol 4, yn bennaf ar gyfer cymwysterau lefel 2 ac yn enwedig yn y pynciau craidd. Yn y cyfnod sylfaen, mae perfformiad wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ond mae'n parhau'n is na chyfartaledd Cymru.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad disgyblion mwy galluog yn 2014 yn dangos y graddiwyd 23.3% o ymgeiswyr TGAU yn A*/A o'i chymharu â 19.4% ar gyfer Cymru. Mae cyfradd y gwelliant yn Abertawe yn fwy nag ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn PYDd a'r rhai nad ydynt yn derbyn PYDd yn lleihau yn y cyfnod sylfaen, CA2 a CA3, ond mae wedi cynyddu ychydig yn CA4. Mae gwerth ychwanegol ar gyfer disgyblion PYDd yn bennaf yn arwyddocaol gadarnhaol yng nghyfnodau allweddol 2-4.
- Mae'r amrywiad mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn PYDd a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn yn amrywio rhwng ysgolion ar draws y ddau gyfnod, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn dangos gwerth ychwanegol, cadarnhaol ar gyfer y disgyblion hyn.
- Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd o hyd lle mae angen rhagor o welliant, a hefyd rhai grwpiau o ddisgyblion sy'n tanberfformio, e.e. y rhai dan anfantais (PYDd) teithwyr a bechgyn.
- Mae dysgwyr â datganiadau o AAA yn gwneud cynnydd da gyda gwerth ychwanegol, cadarnhaol ym mhob cyfnod allweddol.
- Mae'r awdurdod wedi rhoi blaenoriaeth uchel i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r strategaethau sydd wedi cael eu defnyddio'n dangos gwelliant parhaus yn y sgiliau hyn ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella perfformiad ym mhob cyfnod allweddol.
- Mae canran y disgyblion o leiafrifoedd ethnig yng nghyfnod allweddol 4 a gyflawnodd y DPC, trothwy Lefel 2 a throthwy Lefel 1 yn neilltuol ac yn gyson uwch na holl ddisgyblion Abertawe ac yn uwch na chanlyniadau Cymru gyfan.
- Mae Profion Cenedlaethol Cymru 2014 i ddisgyblion ym mlynyddoedd 2-9 yn dangos bod yr awdurdod mewn safle uchel ar gyfer yr holl brofion o'i gymharu ag ALl eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r Gymraeg mewn safle mor uchel. Er hynny, mae yn y safle disgwyliedig yn fras pan gaiff ei chymharu ag amddifadedd.
- Mae perfformiad da mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn parhau, yn enwedig yn CA4 lle mae perfformiad yn gyson ymysg y gorau yng Nghymru. Yn CA2, mae perfformiad yn fwy amrywiol.
- Mae'r nifer sy'n dilyn Cwrs Llawn Ail Iaith TGAU wedi gwella yn 2014 a rhagwelir mwy o welliant wrth i ysgolion uwchradd ychwanegu C2L at y craidd. Roedd bron hanner o gyfanswm ymgeiswyr cwrs llawn 2014 ar raddau A*/A a bron 94% ar radd C neu'n uwch - yn sylweddol well na holl ffigurau Cymru gyfan.
- Mae perfformiad da mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn parhau, yn enwedig yn CA4 lle mae perfformiad yn gyson ymysg y gorau yng Nghymru. Yn CA2 mae perfformiad yn fwy amrywiol.
- Ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith, mae data'r Adran Addysg a Sgiliau o Gofnodion Deilliannau Dysgwyr yn dangos cynnydd cyson dros y 5 mlynedd academaidd diwethaf. Cafwyd gwelliant arwyddocaol yn 2012-13. Cyfradd lwyddiant y fframwaith yn

gyffredinol ar gyfer 2012-13 oedd 85% o'i chymharu â 76% yn 2009-10. Mae hyn yn unol â chymaryddion cenedlaethol.

- Arolygwyd Addysg Oedolion yn y Gymuned ym mis Hydref 2014. Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe yn y traean gorau o ddarparwyr yng Nghymru. Roedd canlyniadau'r arolygiad yn Dda (i'w gadarnhau ym mis Ionawr 2015) ym mron pob maes gyda Rhagorol (i'w gadarnhau) am Weithio mewn Partneriaeth a Rhagorol (i'w gadarnhau) ar gyfer Rhagolygon ar gyfer Gwella. Mae cyflawniad Dysgu Achrededig yn 87% sy'n 3% yn uwch na meincnodau cenedlaethol ac yn welliant o 18% dros y 3 blynedd academaidd diwethaf.

Meysydd i'w Datblygu:

- Gwella perfformiad yn y cyfnod sylfaen er mwyn codi dangosydd y cyfnod sylfaen i o leiaf y lefel ddisgwyliedig (14^{eg}) wrth ei gymharu ag ALl eraill yng Nghymru.
- Gwella perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim;
- Lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion sy'n perfformio'n dda a'r rhai sy'n perfformio'n wael.
- Gwella perfformiad bechgyn mewn llythrennedd.
- Parhau i weithio gydag ysgolion i wella cyflawniad i ddisgyblion ar gam Gweithredu Ysgol a Mwy.
- Gwella deilliannau yng Nghyfnod Allweddol 4 i ddisgyblion sy'n sipsiwn ac yn deithwyr.
- Gwella cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 er mwyn gwella ymhellach ddangosydd trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau ehangach yn CA5 tuag at y cyfartaledd cenedlaethol.
- Parhau i leihau nifer y bobl ifanc NEET 16 oed.
- Cyflawni targedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Ar gyfer Addysg Oedolion yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig ar Waith, datblygu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Lles

- Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data'n dda i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i greu'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed a'r Tîm am y Teulu i nodi'r plant a phobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ran eu lles a'u deilliannau dysgu. Mae plant a phobl ifanc o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn cael cefnogaeth sylweddol wedi'i thargedu trwy'r Rhaglen Atal ac Ymyrryd Cynnar.
- Mae aildrefnu'r gwasanaethau atal ac ymyrryd cynnar i blant a phobl ifanc wedi rhoi'r awdurdod lleol a'i bartneriaid mewn sefyllfa gryfach fyth i gydweddu gwasanaethau mewn ffordd gydlynol ar gyfer anghenion unigol a gwella deilliannau.
- Mae'r Bartneriaeth PPI wedi defnyddio'r arian Teuluoedd yn Gyntaf i wreiddio rhaglen strategol eang sy'n cynnwys cyfres o lifoedd arian, sy'n cyfuno i ddarparu ymagweddau, systemau a gwasanaethau integredig wedi'u targedu i blant a phobl ifanc ddiamddiffyn.
- Mae presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella ond mae angen iddo wella'n fwy ac yn gyflymach. Bydd gwella presenoldeb yn parhau'n flaenoriaeth yn y Cynllun Integredig Sengl, *Un Abertawe*.
- Mae gwaharddiadau parhaol yn dal yn isel yn Abertawe;
- Mae cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol o ysgolion uwchradd yn Abertawe wedi bod yn is na chyfradd Cymru gyfan ac mae wedi lleihau ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol o ysgolion uwchradd yn Abertawe o 5 niwrnod neu lai wedi lleihau ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf.

- Mae gwaharddiadau tymor penodol o 6 diwrnod neu fwy yn lleihau ond ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru. Mae hyd cyfartalog gwaharddiadau tymor penodol yn gymharol uchel.
- Mae'r duedd am i lawr mewn gwaharddiadau parhaol a phenodol sy'n cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg yng Nghymru yn ganlyniad i newid diwylliannol (Arfer Adferol, darpariaeth EOTAS, trosglwyddo wedi'i reoli a hyfforddiant ymddygiad) a chefnogaeth a dargedir.
- Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe rhwng 2010 a 2012 yn llwyddiant a gydnabuwyd yn genedlaethol. Mae gan y strategaeth a ddefnyddir ffocws strategol clir sef nodi a thargedu pobl ifanc mewn perygl, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, darpariaeth a chefnogaeth amlasiantaeth . Mae'r bartneriaeth waith rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion, AB, sefydliadau gwirfoddol, darparwyr a Gyrfa Cymru wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn.
- Mae gwasanaeth cwnsela Abertawe'n fodel o arfer da. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela'n cael cefnogaeth neilltuol gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol gan arwain at lefelau lles sylweddol uwch.
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dangos ymagwedd dda at eu hiechyd corfforol o ganlyniad i amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.
- Mae Gwasanaeth Cerdd Gorllewin Morgannwg sy'n uchel ei barch yn cyrraedd 40% o'r boblogaeth ddisgyblion (y ganran uchaf yng Nghymru). Mae'n rhoi sgiliau amlddimensiwn i ddisgyblion sy'n cyfrannu at ddatblygu lles sy'n arwain at well dysgu. Dyma'r sgiliau hefyd y mae eu hangen ar weithwyr yn y gweithle.
- Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu'n ganlyniad amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a ddarperir trwy gerddoriaeth, celfyddydau creadigol a pherfformio, Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol (AAABA), a Gwobr Dug Caeredin.

Meysydd i'w Datblygu:
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd a chynyddu nifer yr ysgolion yn chwartelau 1 a 2.
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd a chynyddu nifer yr ysgolion yn chwartelau 1 a 2.
- Gwella presenoldeb disgyblion sy'n derbyn PYDd yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
- Lleihau gwaharddiadau tymor penodol mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd.
- Cyfraddau ailintegreiddio o UCD, gyda ffocws penodol ar CA3.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Cefnogaeth i Wella Ysgolion

- Mae rhoi'r System Categoreiddio Ysgolion Genedlaethol newydd ar waith ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn datblygu'n dda ac mae Ymgynghorwyr Her wedi derbyn hyfforddiant ac arweiniad llawn wrth i'r model ddatblygu.
- Mae trefniadau da ar waith bellach i gefnogi a herio ysgolion o ganlyniad i graffu ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn well. Nodir tanberfformiad a ffactorau risg mewn ysgolion yn gyflym bellach ac eir i'r afael â hwy ar gam cynharach.
- Mae herio safonau'n gyson, drwy ddadansoddi data a thrafodaeth heriol ar dargedau, arweinyddiaeth a darpariaeth wedi cynyddu disgwyliadau ar draws bron pob ysgol.

- Mae ysgolion yn deall yn llwyr bod y gefnogaeth yn gymesur ag angen a bod ysgolion sy'n tanberfformio'n derbyn mwy o gefnogaeth a her. Ceir mwy o wahaniaethu a diffiniad yn y gefnogaeth, yr her a'r ymyriad a roddir i ysgolion. Mae'r disgwyliadau i ysgolion yn cael eu cyfleu'n glir drwy gategoreiddio lliw a chaiff y disgwyliad o ran cyflymdra'r gwelliant ei roi ar waith yn gyson.
- Mae ymweliadau monitro yr aseswyd eu hansawdd yn ystod yr hydref 2014 yn nodi lefel gynyddol o her. Mae adborth ffurfiol ac anffurfiol gan benaethiaid yn nodi bod her gadarnach bellach ar gyfer gwelliant.
- Mae uwch-arweinwyr yn archwilio darpariaeth yr Ymgynghorwyr Her yn agos ac o ganlyniad, mae'r dylanwad ar wella ysgolion bellach yn gryfach ac yn fwy cyson. Sicrheir ansawdd adroddiadau ac esiamplau o ymweliadau ymhellach i wella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer gwella ysgolion.
- Mae'r gefnogaeth i ysgolion mewn categorïau dilynol wedi gwella o ganlyniad i ddisgwyliadau clir ac archwilio cynlluniau ôl-arolygiad yn agosach fel bod monitro'n bendant ac yn fwy effeithiol. Mae Pennaeth Gwella Addysg yn sicrhau bod y gefnogaeth i ysgolion mewn camau dilynol yn cael ei chydlynu'n effeithiol.
- Caiff ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt eu herio gan y Prif Swyddog Addysg, drwy graffu o fewn Bwrdd Gwella'r Prif Weithredwr, ac mae'r Uwch-dîm Rheoli'n ymweld â hwy. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn ymwneud yn fwy â dwyn ysgolion i gyfrif yn effeithiol. Mae aelod y cabinet newydd dros addysg yn dangos dealltwriaeth dda o wella ysgolion ac mae'n dwyn uwch-reolwyr i gyfrif yn effeithiol.
- Darperir cefnogaeth effeithiol ar gyfer datblygu TGCh, llythrennedd a rhifedd, Cymraeg (ail iaith), Saesneg a Mathemateg gyda chynnydd mewn darpariaeth wedi'i dargedu i sicrhau bod y gefnogaeth yn gymesur ag angen.
- Mae llywodraethwyr yn derbyn cefnogaeth dda am eu rôl wrth ddwyn ysgolion i gyfrif am safonau. Mae llywodraethwyr yn rhan o ymweliadau monitro'r ALl a chânt eu hannog i fod yn rhan o'r ddeialog broffesiynol ar wella ysgolion.

Meysydd i'w Datblygu

- Nid yw cefnogaeth ar gyfer gwella ansawdd addysgu ac asesu mewn ysgolion wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae darpariaeth ar gyfer craffu ar waith ar y cyd ac arsylwi ar wersi yn anghyson oherwydd diffyg aelodau yn y tîm gwella ysgolion yn 2013-2014.
- Mae pecynnau cyson, *pwrpasol* wedi'u trefnu'n dda ar gyfer gwella ysgolion yn dechrau cael effaith. Fodd bynnag, mae datblygiadau'n rhai diweddar gan fod tîm newydd o weithwyr proffesiynol gwella ysgolion yn ei le ers mis Medi 2014.
- Mae cysondeb a chydweithio ar draws Hwb Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe fel bod cryfderau'r ddau ALl yn cael eu rhannu a darpariaeth ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei gwella'n deg, yn dechrau cael effaith gadarnhaol.
- Bydd angen rhagor o gynllunio ar gyfer cefnogi ysgolion â chwricwla, cymwysterau ac asesiadau diwygiedig h.y. TGAU craidd, Bac Cymru a chanlyniadau Adolygiad yr Athro Donaldson, a'u rhoi ar waith.
- Ceir llai o gefnogaeth i lythrennedd ac iaith mewn ysgolion Cymraeg, ac mae angen recriwtio bellach i sicrhau darpariaeth briodol.
- Mae llwyfan mwy systematig ar gyfer casglu mwy o wybodaeth am y gwasanaeth, olrhain cefnogaeth i ysgolion a sicrhau'r gwasanaeth a chynnydd ynddo yn cael ei ddatblygu.
- Sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni drwy beidio â chael ysgolion na darpariaethau mewn categori statudol a chynyddu cyfran yr ysgolion sy'n gweddu orau i nodweddion math A a B ar gyfer arweinyddiaeth ac ansawdd yr addysgu (gan ddefnyddio'r Ysgol Cefnogi, Herio ac Ymyrryd Rhanbarthol).
- Mae rhaglen cefnogi ysgolion systematig a strategol ar waith. Mae proses ffurfiol gydnabyddedig ar gyfer rhannu rhagoriaeth ar draws ysgolion yn datblygu'n dda.

- Bydd gwaith i gymedroli adroddiadau'r Ymgynghorydd Her i sicrhau bod ysgolion yn cael eu categoreiddio'n gyson a sicrhau bod y rhain yn unol â disgwyliadau cenedlaethol yn cael ei ddatblygu yn yr hydref, 2014.
- Bwriedir cynnal hyfforddiant arweinyddiaeth i arweinwyr uchelgeisiol yn y sector uwchradd drwy gydweithio â'i gilydd ac Ymgynghorwyr Her ar draws yr Hwb yn y gwanwyn, 2015. Mae cefnogaeth atodol debyg ar gyfer arweinwyr cynradd uchelgeisiol a newydd ar y cam cynllunio ar hyn o bryd.
- Mae ysgolion wedi derbyn hyfforddiant o safon ar brosesau hunanwerthuso a chynllunio strategol. Fodd bynnag, mae angen mwy o adborth effeithiol ar ysgolion yn awr ar ansawdd eu prosesau hunanwerthuso a'u cynllunio strategol. Mae'r Ymgynghorwyr Her yn mynd i'r afael â hyn yn dda drwy ymweliadau monitro.
- Mae angen her ychwanegol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion er mwyn mynd i'r afael â gwendidau a chodi safonau.
- Mae angen datblygu sicrhau sicrwydd asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol yn fwy o fewn clystyrau ac ar draws y rhanbarth. Cynhelir hyfforddiant ar hyn ym mis Tachwedd 2014. Ceir camau gweithredu clir yng nghynllun busnes y gwasanaeth i wella asesu a chymedroli, yng ngoleuni sgorau profion cenedlaethol a'r cydberthyniad ag asesiadau athrawon.
- Integreiddio Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (pan gaiff ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru) i Ddechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen er mwy olrhain cynnydd plant ifanc.

2.2. Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

- Mae'r gefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg yn dda. Mae polisïau a chynlluniau ar waith i fodloni rhwymedigaethau statudol.
- Mae'r awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau amrywiol. Mae proses effeithiol ar gyfer diweddaru polisïau a chynlluniau drwy'r ysgol a grŵp strategaeth swyddogion ar waith.
- Mae'r Awdurdod Lleol wedi dirprwyo adnoddau i ysgolion i ddiwallu anghenion plant ag anghenion difrifol a chymhleth, ac yn monitro'r defnydd o'r gyllideb hon drwy offeryn monitro dynodedig. Mae'r fformiwla ar gyfer dyraniad y gyllideb hon yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad ehangach o fformiwlâu ariannu ym maes Addysg.
- Mae datblygu Fforwm y Blynyddoedd Cynnar gyda'r adran Iechyd yn sicrhau nodi AAA yn gynnar.
- Mae nifer yr asesiadau statudol a gwblheir erbyn oed ysgol statudol yn uchel ac yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru gyfan.
- Mae dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a chanddynt ddatganiadau o AAA yn cyflawni'n uwch na chyfartaleddau cenedlaethol ym mhob cyfnod allweddol. Mae angen i safonau godi ymhellach ar gyfer yr holl ddysgwyr AAA ar draws pob cyfnod allweddol ar gamau Gweithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy yn CA4.
- Mae ansawdd y gefnogaeth, yr arweiniad a'r hyfforddiant ar gyfer AAA(ADY) yn neilltuol fel y'u gwerthusir gan rwydweithiau proffesiynol o ymarferwyr, dadansoddiadau o adolygiadau, y nifer sy'n dilyn y cwrs a gwerthusiadau, cynadleddau a chymorthfeydd.
- Mae Abertawe wedi dilyn agenda gynhwysol ers rhai blynyddoedd. O ganlyniad i hyn, mae 99.5% o ddisgyblion yn Abertawe'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae adeiladu gallu mewn ysgolion a'r amrywiaeth o gefnogaeth arbenigol yn rhan o'r agenda hon ac wedi cyfrannu at y deilliannau cadarnhaol i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Mae deilliannau cadarnhaol i blant a phobl ifanc ag ADY a ariennir trwy'r arolwg yn y brif ffrwd, y rhai a roddwyd mewn CAA a'r rhai sy'n mynd i ysgolion arbennig oherwydd darpariaeth o safon.
- Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol yn isel; mae ysgolion yn cael eu cefnogi i reoli plant ag ACEY trwy amrywiaeth o wasanaethau a phrosesau cefnogi.
- Mae EMLAS yn cyflwyno cefnogaeth wych mewn ysgolion drwy hybu a gweithredu modelau effeithiol a chynaliadwy sy'n seiliedig ar ymagweddau adeiladu gallu cydweithredol. Mae modelau o'r fath yn sicrhau bod sgiliau athrawon dosbarth a phynciau yn cael eu diweddaru er mwyn darparu ar gyfer anghenion niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) sy'n mynychu ysgolion Abertawe. Adlewyrchir y gefnogaeth hon yn neilliannau'r plant a'r bobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn Abertawe.
- Mae gwasanaethau cefnogi ADY yn cynnig mewnbwn ag enw da, mae galw mawr amdanynt ac mae ganddynt gyfraddau hawlio ardderchog ac maent yn werth da am arian.
- Mae lefelau uchel cyson o gynhwysiad yn cael eu cynnal a'u cadw trwy gynnig cefnogaeth i blant yn y brif ffrwd, ac mae nifer isel o leoliadau y tu allan i'r sir.
- Mae Llwybr Integredig Sengl y Blynyddoedd Cynnar wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr holl blant cyn-ysgol ag anabledd sy'n dod i'r amlwg neu eisoes wedi'i ddiagnosio yn gallu cael mynediad i wasanaeth addas i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae plant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol sy'n dechrau yn yr ysgol yn cael datganiadau a chefnogaeth wrth ddechrau yn yr ysgol.
- Mae rhoi DPP achrededig llwyddiannus i gynorthwywyr addysgu a staff cefnogi ar waith a'i gefnogi wedi sicrhau datblygu sgiliau da iawn a dealltwriaeth o ADY.
- Cafwyd cydnabyddiaeth ein bod yn awdurdod lleol sy'n cefnogi dyslecsia.

Meysydd i'w Datblygu:

- Caiff y system ar gyfer dirprwyo adnoddau AAA i ysgolion ei hadolygu fel rhan o adolygiad ehangach o'r fformiwla ariannu addysg
- Adolygu'r strategaeth i leihau dibyniaeth ar ddatganiadau o AAA.
- Diweddaru gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer AAA yn sgîl y diwygiadau sydd ar ddod i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.
- Datblygu systemau ymhellach ar gyfer olrhain deilliannau i ddysgwyr ar gamau Gweithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy.
- Mireinio a datblygu hyfforddiant i lywodraethwyr a fydd yn cynnwys awtistiaeth, lleferydd, iaith a chyfathrebu ac ymddygiad.
- Hyfforddi staff sy'n addysgu disgyblion ag AAA fel y gallant gefnogi disgyblion i gael mynediad i Fframweithiau Cenedlaethol ar lefel sy'n briodol i'w gallu.
- Hyfforddiant ar Gôd Ymarfer diwygiedig AAA pan gaiff ei gyhoeddi.
- Adeiladu gallu ar gyfer ADY yn yr holl ysgolion drwy fentrau ysgol i ysgol a rhanbarthol.

2.3 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

- Darperir gwaith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar effeithiol i gefnogi teuluoedd gan y Gwasanaeth Magu Plant (gan gynnwys cefnogaeth i dadau), Dechrau'n Deg, Tîm am y Teulu a'r Llofnod Dysgu fel Teulu. Targedir y gwasanaethau hyn i ardaloedd lle ceir yr amddifadedd mwyaf.
- Mae gwaith gyda throseddwyr ifanc yn neilltuol. Mae troseddwyr ifanc yn dychwelyd i addysg o ganlyniad i gysylltu a chynllunio effeithiol. Mae cefnogaeth bwrpasol i droseddwyr ifanc yn yr ysgol ac mewn lleoliadau diogel sy'n enghraifft o arfer da.

Mae'r *Biwro Ieuenctid,* sy'n defnyddio ymagweddau adferol i osgoi troseddoli pobl ifanc ac atal aildroseddu, hefyd wedi'i chydnabod fel arfer da ar draws Cymru a Lloegr. Caiff y trefniadau hyn eu monitro ar ôl ffurfio Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin.

- Mae EOTAS wedi'i adolygu'n allanol ac mae canlyniad hwn wedi cyfeirio proses o newid o fewn EOTAS ac ysgolion.
- Mae darpariaeth Llwybrau EOTAS yn defnyddio ymagwedd unigryw at ymgysylltu â'r bobl ifanc mwyaf anodd eu cyrraedd, gyda nifer cynyddol o ddysgwyr (48%) yn cyflawni dangosydd Lefel 1 wrth adael yn 16 oed.
- Mae darpariaeth EOTAS yn amrywio o ran effeithiolrwydd. Mae ailintegreiddio CA3 yn ffocws ar gyfer gwella, ynghyd â ffocws parhaus ar wella deilliannau ar draws portffolio UCD yn 16 oed.
- Ym meysydd Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned mae cefnogaeth i ddysgwyr yn effeithiol iawn ac mae hyn wedi arwain at gadw mwy ohonynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cyflawniad a llwyddiant ar gyfer aelodau mwyaf diamddiffyn cymdeithas.
- Mae Dysgu fel Teulu yn gweithio'n effeithiol mewn ysgolion a dargedir mewn ardaloedd difreintiedig i gefnogi rhieni a gofalwyr i wella eu cymwysterau. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn well, ac yn cyfrannu at godi safonau a dyheadau ar draws yr holl gyfnodau allweddol.
- Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur leol i gynllunio darpariaeth ac osgoi dyblygu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae dysgwyr yn cyflawni cystal â'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Y gyfradd lwyddiant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yw 87.4%, a'r gyfradd lwyddiant o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yw 86.1%.
- Mae amrywiaeth o gefnogaeth effeithiol ar gyfer PDG wedi arwain at ddeilliannau addysgol da i PDG mewn perthynas â'r deilliannau a ragwelir ar eu cyfer erbyn CA4. Mae'r nifer sy'n cyflawni Trothwy Lefel 1 wedi cynyddu gyda 100% yn cyflawni cymhwyster cydnabyddedig yn 16 oed yn 2014.
- Mae polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer nodi ac olrhain plant sy'n colli addysg wedi'u defnyddio fel arfer da yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr (GAT) yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn addysg ac yn cefnogi anghenion y teulu/gymuned.
- Mae EMLAS yn darparu cefnogaeth arbenigol, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant neilltuol. Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys yn llawn ac maent yn cyflawni safonau uchel iawn.
- Mae'r gefnogaeth dda i bresenoldeb ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd wedi arwain at well perfformiad ond mae angen gwella'n fwy ac yn gynt. Bydd gwella presenoldeb yn parhau'n flaenoriaeth yn y Cynllun Integredig Sengl, *Un Abertawe*.
- Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio'n llwyr wrth gynnig 25 awr o addysg i blant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.
- Mae protocol effeithiol sy'n sefydlu perthnasoedd gwaith agos rhwng GLIA ac EMLAS.
- Mae swyddog amddiffyn a diogelu plant yn gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau cefnogi'n uniongyrchol, a hefyd yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol, gan gynnal gwaith da ym maes amddiffyn a diogelu plant.
- Drwy gefnogaeth wedi'i thargedu, mae deilliannau achrededig ac a gofnodir ar gyfer pobl ifanc drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cymharu'n ffafriol â Chymru.
- Darperir Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP) i bob ysgol. Mae'r offeryn hwn wedi bod yn effeithiol wrth arwain ysgolion a'r Gwasanaeth i Bobl Ifanc i ystyried anghenion unigol plant a phobl ifanc gan gynnwys targedu adnoddau a chael mynediad

iddynt er mwyn gwella deilliannau. Adlewyrchir yr offeryn yn fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

- Cydnabuwyd y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe rhwng 2010 a 2012 yn genedlaethol. Mae gan y strategaeth a ddefnyddiwyd ffocws strategol clir sef nodi a thargedu pobl ifanc mewn perygl, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, a darpariaeth a chefnogaeth amlasiantaeth. Mae partneriaeth waith yr awdurdod lleol, ysgolion, AB, sefydliadau gwirfoddol. darparwyr a Gyrfa Cymru wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe yn 2013 ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn.
- Ceir cydbwysedd a chydlyniant da rhwng yr amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol ac a dargedir a gynigir gan Wasanaethau Pobl Ifanc Cymru. Blaenoriaethir lleoliad a dyraniad gwasanaethau yn ôl angen ac mae'r rhyngberthynas rhwng gwaith cyffredinol ac a dargedir wedi'i ddiffinio'n glir.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i estyn cyrhaeddiad y Gwasanaeth Ieuenctid ymhellach.

Meysydd i'w Datblygu:

- Lleihau'r galw am ddarpariaeth EOTAS a chynyddu gallu ysgolion i reoli Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiad.
- Ail-lunio darpariaeth EOTAS
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth EOTAS sy'n weddill.
- Parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion.
- Gwella gallu ysgolion i gadw plant mewn prif ffrwd heb orfod defnyddio gwaharddiadau tymor penodol.
- Ymgorffori'r protocol ar gyfer Symudiadau wedi'u Rheoli gydag ysgolion.
- Gweithio mewn partneriaeth i leihau nifer y bobl ifanc NEET (gan gynnwys EOTAS) a chyfraddau gadael Addysg, Cyflogaeth, neu Hyfforddiant ar ôl 16 oed.
- Ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith mae angen parhaus i wella monitro addysgu ac asesu. Ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned mae angen ailsefydlu arsylwadau trawsbartneriaeth.
- Ym meysydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig ar Waith mae angen cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Datblygu dulliau addas o gynnwys pobl ifanc drwy offer sy'n dod i'r amlwg ar y rhyngrwyd ac archwilio opsiynau cyfryngau cymdeithasol.
- Adolygu darpariaeth mewn canolfannau i bobl ifanc gan y Gwasanaeth Pobl Ifanc.
- Datblygu ymagwedd gydlynol at leihau nifer y bobl ifanc NEET sy'n 18+ oed drwy'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu.
- Monitro newidiadau sy'n dod i'r amlwg yn sgil datblygu Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin.

2.4: Mynediad a lleoedd ysgol

- Mae cynllunio da ar gyfer lleoedd ysgol. Mae rhaglen AoS 2020 yn sicrhau y cynllunnir lleoedd ysgol yn effeithiol yn Abertawe, gan gynnwys cyfranogaeth ehangach a chadarnach gan randdeiliaid.
- Mae deilliannau a manteision y rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS 2020 bresennol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus.

- Mae cyflwyno Rhaglen AoS yn llwyddiannus yn dystiolaeth o hanes profedig yr awdurdod lleol o wneud penderfyniadau anodd am gynigion trefniadaeth ysgolion.
- Mae gan yr awdurdod lleol bolisi clir i ail-fuddsoddi'r adnoddau a ryddhawyd trwy broses AoS 2020 yn y rhaglen.
- Mae'r fframwaith asesu cynhwysfawr a bennwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau wedi cynnal Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) yr awdurdod. Mae rhannu'r data craidd cynhwysfawr a chadarn â rhanddeiliaid wedi sicrhau tryloywder ac wedi'i gydnabod yn fodel o arfer da.
- Mae ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid, wedi'i ysgogi gan y Grŵp Llywio AoS 2020 a'r Fforwm Rhanddeiliaid, a grwpiau penaethiaid a llywodraethwyr ehangach, yn parhau i ychwanegu gwerth at y deilliannau a'r anghenion ac opsiynau buddsoddi â blaenoriaeth a nodwyd, fel a adlewyrchwyd yn y RhAS.
- Mae gwerthuso'r opsiynau a nodwyd mewn modd cynhwysfawr wedi galluogi datblygu strategaeth radical a chydlynol, sy'n cefnogi gweddnewid addysgol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn cydnabod bod Abertawe yn enghraifft o arfer da ym maes ymgynghori a'r weithdrefn hysbysiad statudol ynghylch ysgolion. Mae gan Abertawe brosesau cadarn a chofnod o gynigion statudol cymeradwy, ac mae hyn hefyd wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru.
- Mae hanes da o ddileu lleoedd dros ben yn y sector Saesneg.
- Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth gynradd Gymraeg. Erys mwy o heriau o ran ysgolion sy'n bodoli eisoes ac argaeledd lleoedd i ateb y galw.
- Defnyddiwyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, gweddnewid yr amgylchedd dysgu mewn dwy ysgol uwchradd a pharhau â'r rhaglen waith i wella cyflwr ac addasrwydd.
- Mae cyfradd lwyddiant proses dderbyn ar-lein Abertawe ar gyfer plant sy'n mynd i ddosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 7 yn uchel, gyda 94% o geisiadau yn cael eu cyflwyno ar-lein. Ar gyfer derbyniadau mis Medi 2014, cafodd 99.2% o ymgeiswyr cynradd i uwchradd a 98.86% o ymgeiswyr meithrin i'r derbyn eu dewis cyntaf.

Meysydd i'w Datblygu:

- Sicrhau cysondeb â'r Cynllun Datblygu Lleol i ychwanegu gwerth at y strategaeth trefniadaeth ysgolion bresennol er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.
- Sicrhau cysondeb â'r adolygiad o asedau corfforaethol i ychwanegu gwerth drwy ryddhau adnoddau i gefnogi buddsoddi mewn ysgolion yn y dyfodol.
- Datblygu'r broses ar gyfer cysylltu hunanwerthusiadau ysgol ag amcanion a chanlyniadau buddsoddi ymhellach.
- Defnyddio lleoedd dros ben yn effeithiol er mwyn diwallu angen penodol (e.e.....)
- Datblygu trosglwyddiadau a derbyniadau o fewn y flwyddyn nad ydynt wedi'u canoli hyd yn hyn.

3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

- Mae arweinyddiaeth wleidyddol uwch a chan swyddogion ym maes addysg yn gryf. Mae blaenoriaethau'n glir ac mae atebolrwydd ar gyfer gwella gwasanaethau'n gadarn.
- Mae blaenoriaethau addysg yn glir iawn ac yn cefnogi cyflwyno'r agenda gorfforaethol yn dda iawn.
- Mae Byrddau Gwella wedi dwyn uwch-swyddogion i gyfrif yn gyson ac yn effeithiol, gan sicrhau cyflymdra gwelliant.
- Mae'r tîm gwella addysg newydd yn cael ei arwain yn dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at berthnasoedd rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol.
- Mae'r cynllunio gwelliant corfforaethol blynyddol yn ysgogi cynllunio busnes a chynllunio gweithredu gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaethau. Mae Cynllunio Gwelliant a Chynllunio Busnes yn hanfodol wrth gysylltu blaenoriaethau corfforaethol a chynllunio gwasanaethau a rheoli gweithrediadol â chylch blaenoriaethu cyllideb y cyngor a'r cynllun ariannol tymor canolig.
- Mae'r strwythurau arweinyddiaeth cadarn, cynlluniau gweithredol a strategol wedi'u halinio, prosesau cynllunio a threfniadau rheoli perfformiad priodol wedi cyfrannu at y deilliannau a'r effeithiau cadarnhaol niferus.
- Dangosyddion perfformiad addysg allweddol sy'n dangos tueddiadau sy'n gwella.
- Mae prosesau rheoli perfformiad ar draws yr awdurdod ac mewn cyfarwyddiaethau'n sicrhau cadernid cynllunio, pennu targedau a monitro. Mae'r holl staff yn gallu deall eu cyfraniad at gynlluniau strategol, gwasanaeth a lleol ac maent yn eu cyfleu i ysgolion a phartneriaid eraill.
- Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe yn gweithio'n effeithiol i wella deilliannau dysgwyr a chwalu rhwystrau i gyfranogiad ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr a'u gallu i gwblhau cyrsiau.
- Ceir gweledigaeth a dyheadau clir ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n canolbwyntio ar roi'r cyfle i'r holl blant a phobl ifanc ddatblygu eu potensial llawn. Adlewyrchir hyn ym mlaenoriaethau'r Cabinet ar gyfer addysg.
- Mae aelodau etholedig yn archwilio blaenoriaethau addysgol yn effeithiol
- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Abertawe 2014-17 yn gynllun cadarn sy'n dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a gwella'r Gymraeg mewn addysg. Roedd yn un o dri chynllun yn unig i'w dderbyn gan Lywodraeth Cymru heb ddiwygiadau.

Meysydd i'w Datblygu:

- Ymgorffori ymhellach y newid diwylliannol sy'n sail i'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.
- Ailffocysu'r bwrdd PPI i gyflwyno'r llif gwaith Atal dan Abertawe Gynaliadwy.

3.2 Gwella ansawdd

- Gwnaed cynnydd da wrth gyflawni argymhellion Estyn yn dilyn yr arolygiad yn 2013. Mae'r Cynllun Ôl-arolygiad wedi'i ymgorffori yng nghynlluniau busnes y gwasanaeth Addysg. Caiff gweithredoedd allweddol eu monitro bob chwarter a darperir adroddiadau rheolaidd i Fyrddau Gwella.
- Mae'r fframwaith cynllunio a rheoli busnes cadarn a sefydlwyd ym mis Ionawr 2014 wedi creu modd i nodi, blaenoriaethu a mynd i'r afael â materion perfformiad mewn ffordd fwy strwythuredig, effeithiol ac amserol. Mae pennu targedau bellach yn fwy

heriol. Mae defnyddio'r fframwaith hwn wedi arwain at gynnydd da yn erbyn argymhellion arolygiad 2013.

- Mae cynlluniau busnes o safon bellach ar waith. Mae'r rhain yn helpu i ysgogi gwaith y Gwasanaeth Addysg ac fe'u cysylltir yn agos â chyflawni gwell deilliannau i ddisgyblion. Caiff y cynlluniau hyn eu monitro bob chwarter. Eir i'r afael â thanberfformio a chaiff ei herio.
- Mae trefniadau da ar waith i gefnogi a herio ysgolion o ganlyniad i archwilio safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn well. Caiff tanberfformio a ffactorau risg mewn ysgolion eu nodi'n gyflym bellach, ac eir i'r afael â hwy ar gam cynharach. Mae datblygu Ysgol Cefnogaeth ac Ymyriad ERW wedi golygu y gellir gwneud cymariaethau rhanbarthol yn fwy cyson.
- Caiff perfformiad ysgolion ei fonitro drwy amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r ysgol gan ymgynghorydd her, dadansoddi data a thrafodaeth bob tymor ar sut mae ysgolion yn perfformio ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r wybodaeth yma'n helpu i lunio barn am berfformiad cyfredol ysgol a'r gallu i wella.
- Caiff yr ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt eu herio'n bersonol gan y Prif Swyddog Addysg, trwy graffu o fewn bwrdd gwella'r Prif Weithredwr, ac ymwelir â hwy gan yr Uwch-dîm Rheoli.
- Mae'r data a'r dadansoddiadau a ddarperir i swyddogion ac ysgolion yn nodweddion eithriadol ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at godi safonau. Mae'r rheoli, yr wybodaeth a'r data rhagorol sydd ar gael yn Abertawe wedi hwyluso nodi materion perfformiad a phryderon eraill. Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn enghraifft dda o ddatblygiad y mae gwasanaethau yn ogystal ag ysgolion wedi elwa'n fawr ohono.
- Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn enghraifft dda o ddatblygiad y mae gwasanaethau yn ogystal ag ysgolion wedi elwa'n fawr ohono.
- Mae data perfformiad disgyblion yn destun craffu gan aelodau'r Cabinet ac aelodau etholedig, ac mae'n cefnogi nodi meysydd ar gyfer gweithredu.
- Mae gwelliannau arfaethedig a datblygiadau gwasanaethau wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus trwy brosesau Monitro Perfformiad ac Ariannol (MPA) aeddfed ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.
- Ymarfer blynyddol, diweddaru Cynlluniau Gweithredu Gwasanaethau dan y Cynllun Busnes. Mae cyfarfodydd tîm ac un i un yn caniatáu rheolwyr a staff i fynegi unrhyw bryderon am berfformiad a chyfrifoldebau unigol.
- Caiff gwasanaethau a gomisiynwyd a CLG eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd.
- Mae perthnasoedd ag ysgolion yn gyffredinol dda. Mae cyfarfodydd penaethiaid rheolaidd a'r grwpiau partneriaeth yn y strwythur ymgynghorol a amlinellir yn y Cytundeb Partneriaeth Ysgolion/ALl yn creu dull effeithiol ar gyfer codi materion a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.

Meysydd i'w Datblygu:

- Adolygu cost effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynir i blant a phobl ifanc yn llawn.
- Rhannu arfer da drwy gefnogaeth ysgol i ysgol ar draws yr awdurdod a'r rhanbarth.

3.3 Gwaith partneriaeth

- Mae Strategaeth Gymunedol Abertawe'n darparu cyfeiriad a blaenoriaethau clir i'r holl bartneriaethau ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn effeithiol ac yn rhagweithiol wrth ddatblygu ei flaenoriaethau a nodwyd, gan gynnwys ei ffocws yn y gorffennol ar leihau nifer y bobl ifanc NEET a'i ffocws presennol ar Atal ac Ymyrryd Cynnar.
- Mae gwaith partneriaeth da i wella ysgolion wedi arwain at gynnwys ysgolion wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau awdurdodau lleol trwy grwpiau

fel Partneriaeth Ddysgu Abertawe, CGY, Grŵp Trawsgyfnod AAA, Fforwm Derbyniadau a Fforwm Cyllideb Ysgolion.

- Dynodwyd yr Awdurdod a'i bartneriaid (yn 2010) yn aelod o'r Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewropeaidd gyda ffocws penodol ar amgylcheddau gofalgar a chefnogol, byw'n iach ac amgylchedd a dylunio trefol iach.
- Ym mis Hydref 2013, rhanbarth Bae Abertawe oedd yr unig ddinas yn y DU i fod yn rhan o Ddinasoedd Dysgu Byd-eang UNESCO. Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe'n cydgysylltu â Phrifysgol Abertawe sy'n arwain hyn. Y thema allweddol yw Entrepreneuriaeth. Mae'n ymwneud â'r holl agweddau addysgol ar bob lefel a cham, o ysgolion, AB, AU, Dysgu yn y Gweithle drwy gyfleoedd Dysgu Gydol Oes.
- Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Hyfforddiant Cyflogaeth yn gweithio gyda Choleg Gŵyr, Abertawe dan drefniant cynnig ar y cyd i ddatblygu ymagwedd gyflenwol at gynllunio a chyflwyno dysgu seiliedig ar waith. Dyfarnwyd rhaglen gomisiwn i'r bartneriaeth i gyflwyno prentisiaethau yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.
- Mae'r Awdurdod yn cyfrannu'n adeiladol at amrywiaeth o bartneriaethau amlasiantaeth, er enghraifft, Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin ar drefniant rhanbarthol Bae'r Gorllewin, y Grŵp Strategaeth Anabledd, Grŵp Strategaeth PDG, gwasanaeth ar y cyd gydag Iechyd ar gyfer ALlICh, a llifoedd gwaith atal Abertawe Gynaliadwy.
- Mae anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu trwy gynnig cwricwlwm eang o ddarpariaeth ôl-16 trwy waith partneriaeth lleol, sy'n cynnwys y Gymraeg.
- Darperir cefnogaeth dda i'r iaith Gymraeg mewn addysg drwy Bartneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe a'i bartneriaid ehangach, er enghraifft mewn Addysg Uwch.
- Mae cytundebau partneriaeth effeithiol ar waith rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i ehangu darpariaeth ieuenctid Gymraeg.
- Mae Cytundeb Pwyllgor ar y cyd ffurfiol rhwng y chwe awdurdod lleol rhanbarthol yn ERW yn bodoli i gyflwyno gwaith Gwella Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar y cyd i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r GEY, WEG ac arian 14-19.

Meysydd i'w Datblygu:

- Ymagwedd amlasiantaeth at ateb heriau a fydd yn codi o'r diwygiadau sydd ar ddod i'r asesiad statudol o AAA.
- Ymgynghori â Phobl Ifanc.
- Rhoi'r Fframwaith Datblygu Ieuenctid ar waith.

3.4 Rheoli adnoddau

- Mae'r prosesau Monitro Perfformiad ac Ariannol (MPA) ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, llywodraethu'r Bwrdd Rhaglenni Strategol a monitro rhaglenni a phrosiectau corfforaethol allweddol yn sicrhau rheoli adnoddau da.
- Mae strategaeth y gyllideb, 'Un Addysg', yn darparu cynllun ariannol tymor canolig sy'n cyflwyno strategaeth ariannol gyson i flaenoriaethu'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion a meysydd cefnogaeth penodol i ddisgyblion yn y gyllideb heb ei dirprwyo.
- Bu ffocws clir ar flaenoriaethu'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion a gwasanaethau cefnogi disgyblion; gwasanaethau statudol dros rai dewisol; effeithlonrwydd ac ailstrwythuro ac adennill costau o grantiau.
- Mae'r strategaeth adnoddau'n cefnogi strategaeth cynllunio gwasanaethau ehangach ac yn dangos bod penderfyniadau anodd wedi'u gwneud ar ôl cynnwys rhanddeiliaid a chynllunio gofalus.

- Yr hyn sy'n sail i'r strategaeth yw cynnwys rhanddeiliaid yn effeithiol drwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau (yn enwedig y Grŵp Cyllid ar y Cyd). Mae gan y rhain broses herio ac adolygu gadarn a threigl ar gyfer yr holl feysydd cyllidebol yn y Gwasanaeth Addysg.
- Mae llwyddiant parhaol wrth gynnig am adnoddau cyfalaf a chyflwyno prosiectau mawr trwy drefniadau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau addysg.
- Mae digonolrwydd, addasrwydd a pherfformiad CLG yn cael eu hadolygu gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymrwymo i CLG yr awdurdod.
- Fel rhan o'r adolygiad o'r fformiwlâu arian i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'r diben, mae'r ffocws presennol wedi bod ar adolygu costau CLG i sicrhau bod taliadau'n parhau i gynrychioli adlewyrchiad realistig o gost wirioneddol cyflwyno.
- Mae'n ofynnol i ysgolion â diffygion ariannol geisio cymeradwyaeth gan y swyddog S151 ar gyfer unrhyw ddiffyg a reolir a fydd yn cynnwys datblygu a chymeradwyo cynllun adfer gyda chefnogaeth lawn swyddogion ariannol. Caiff cyflwyno cynllun adfer ei fonitro'n agos ac adroddir am unrhyw broblemau yn rheolaidd drwy MPA.
- Caiff ysgolion sydd â gormod o arian dros ben eu herio'n gyson o ran cyfiawnhau'r lefel o arian wrth gefn maent yn dewis ei chadw ac yn ôl y Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion, mae gan yr Awdurdod y pŵer i orchymyn ysgol i wario'r arian wrth gefn yr ystyrir bod gormod ohono yn ôl y cynllun.
- Drwy weithio ar y cyd effeithiol gyda'r Tîm Cludiant yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, gwnaed arbedion sylweddol o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Meysydd i'w Datblygu:

- Datblygu a chyflwyno strategaeth ariannol addysg tymor canolig effeithiol ar gyfer 2015/16 - 2017/18, gan gynnal gwelliant i ddeilliannau dysgwyr.
- Trawsnewid agweddau meddwl mewn ysgolion a gwasanaethau'r cyngor sy'n weddill yn sgîl y gostyngiad cyffredinol mewn arian i awdurdodau lleol a'r cynnydd mewn dirprwyo arian a chyfrifoldebau i ysgolion.

Rhestr termau

Rhestr termau

AAY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Bac	Bagloriaeth Cymru
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
PSD	Dangosydd Pynciau Craidd
PPI	Plant a Phobl Ifanc
ADC	Anabledd Datblygu Cydsymud
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
EMLAS	Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
EOTAS	Addysg mewn Lleoliad Heblaw yn yr Ysgol
ERW	Rhanbarth de-orllewin a chanolbarth Cymru (Ein Rhanbarth ar Waith)
GLlA	Gwasanaeth Lles Addysg
AB	Addysg Bellach
FSM	Prydau Ysgol Am Ddim
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg
AU	Addysg Uwch
CA	Cyfnod Allweddol
ALl	Awdurdod Lleol (Cyngor)
PDG	Plentyn/Plant sy'n Derbyn Gofal
BGLl	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
NEET	[Pobl ifanc] nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
AAABA	Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol
PACA	Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe
MPA	Monitro Perfformiad ac Ariannol
CDP	Cymunedau Dysgu Proffesiynol
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
AoS 2020	Addysg o Safon 2020
RSCIF	Fframwaith Cefnogi, Herio ac Ymyrryd Rhanbarthol
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiad
FfEY	Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
PGY	Partneriaeth Gwella Ysgolion
ALlICh	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
RhAS	Rhaglen Amlinellol Strategol
CAA	Cyfleuster Addysgu Arbenigol
SWAMWAC	Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru
CA	Cynorthwy-ydd Addysgu
GAT	Gwasanaeth Addysg Teithwyr
VAP	Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed
UPOSS	Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig
LlC	Llywodraeth Cymru

ATODIAD – PERFFORMIAD

DPC Cyfnod Allweddol 1/Dangosydd Cyfnod Sylfaen

DPC	2008	2009	2010	2011			
Abertawe	78.5%	82.3%	81.3%	81.7%			
Cymru	80.7%	81.1%	81.6%	82.7%			
Gradd	16	7	15	15			

Cyfnod Sylfaen					2012	2013	2014
Abertawe					77.6%	80.1%	83.9%
Cymru					80.5%	83.0%	85.2%
Gradd					19	21	17

Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	73.6%	73.9%	77.4%	80.8%	83.6%	84.3%	87.3%
Cymru	75.5%	74.2%	78.2%	80.0%	82.6%	84.3%	86.1%
Gradd	15	14	17	12	10	13	9

Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	59.3%	57.9%	61.6%	68.4%	73.3%	76.4%	80.6%
Cymru	59.6%	61.3%	63.7%	68.0%	72.5%	77.0%	80.1%
Gradd	15	18	14	11	12	14	14

Presenoldeb						
Cynradd	2008-2009		2009-2010		2010-11	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	92.4	0.6	92.3	0.7	93%	0.6
Cymru	93.2	1.0	93.1	1.0	93.1	0.8
Gradd	19	8	18	11		8

Presenoldeb	2011-12		2012-13		2013-14	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	93.3%	0.5	93.0%	0.6	94.4	1.4
Cymru	93.8%	0.7	93.7%	0.9	94.8	1.0
Gradd	17	10	20fed a'r olaf ar y cyd	6	18fed ar y cyd	20

Uwchradd	2008-2009		2009-2010		2010-11	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	90.7%	1.9%	90.6%	2.0%	91%	1.6
Cymru	91.0%	1.7%	91.1%	1.6%	92.4%	1.5
Gradd	16	13	16	18	16 ar y cyd	1af ar y cyd

Uwchradd	2011-12		2012-13		2013-14	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	92.0%	1.4%	92.3%	1.1	93.3%	1.2
Cymru	92.2%	1.4%	92.6%	1.3	93.6%	1.3
Gradd	15	15	15	12	16	14 ar y cyd

Trothwy Lefel 1							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	86.5%	86.1%	88.5%	90.8%	92.8%	93.8%	95.5%
Cymru	86.8%	88.2%	89.7%	90.3%	91.8%	93.2%	94.0%
Gradd	14	20	18	13	9	10	9

Trothwy Lefel 2							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	57.8%	59.9%	63.4%	65.8%	74.6%	79.3%	84.4%
Cymru	58.0%	60.6%	63.7%	67.3%	72.6%	77.8%	82.3%
Gradd	9	11	11	14	11	11	10

Trothwy Lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	50.2%	49.2%	52.1%	53.2%	54.6%	55.3%	59.1%
Cymru	45.6%	47.2%	49.4%	50.1%	51.1%	52.7%	55.4%
Gradd	5	10	5	7	8	9	7

Sgôr bwyntiau ehangach gyfartalog							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	342.7	351.2	372.3	423.5	470.4	525.3	559.6
Cymru	356.0	378.8	394.0	422.9	465	501.2	524.5
Gradd	16	20	17	12	13	9	6

Sgôr Bwyntiau wedi'i chapio							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe			303.9	313.9	328.8	338.9	349.7
Cymru			305.1	311.6	323.5	333.1	340.8
Gradd			13	11	10	10	10

Dangosydd Pynciau Craidd yn CA4							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	49.4%	48.0%	50.7%	51.8%	52.5%	52.9%	56.0%
Cymru	44.4%	46.0%	48.0%	48.7%	48.9%	49.2%	52.6%
Gradd	3	8	6	6	8	6	8

Y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig							
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Abertawe	2.7%	1.6%	0.9%	0.43%	0.38%	0.1%	0.9p
Cymru	1.5%	0.9%	1.4%	0.6%	0.4%	0.3%	1.1p%
Gradd	20	21	15fed ar y cyd	9fed ar y cyd	16	7fed ar y cyd	

NEETS 16 oed **Dull Abertawe o gyfrifo - 31 Hydref - nid yn gymharol** ***(Dull Cymru, cymharol)***							
	2008	**2009**	**2010**	**2011**	**2012**	**2013**	**2014**
Abertawe	6.4% *(5.8%)*	6.7% *(6.4%)*	4.2% *(4.2%)*	3.1% *(3.1%)*	2.9% *(3.2%)*	3.2% *(3.9%)*	Disgwylir Rhag.
Cymru	*(7.1%)*	*(5.7%)*	*(5.4%)*	*4.4%*	*(4.2%)*	*(3.7%)*	
Gradd	*(7fed)*	*(16fed)*	*(8fed)*	*(5ed)*	*(9fed)*	*(15fed)*	

Profion Cenedlaethol (Blynyddoedd 2 - 9 wedi'u cyfuno)

Profion Llythrennedd Cenedlaethol - Saesneg - Sgorau safonedig						
	2014 85+	**2014 115 +**	**2015 85+**	**2015 115 +**	**2016 85+**	**2016 115 +**
Abertawe	84.9	17.8				
Cymru	83.2	16.5				
Gradd	6	7				

Profion Llythrennedd Cenedlaethol - Cymraeg - Sgorau safonedig						
	2014 85+	**2014 115 +**	**2015 85+**	**2015 115 +**	**2016 85+**	**2016 115 +**
Abertawe	84.5	15.6				
Cymru	84.4	17.5				
Gradd	13	13				

Profion Llythrennedd Cenedlaethol - Sgorau safonedig				
	2014 Gweithdrefnol 85+	**2014 Gweithdrefnol 115+**	**2014 Rhesymu 85+**	**2014 Rhesymu 115+**
Abertawe	84.7	18.9	84.5	17.3
Cymru	82.8	15.5	82.2	14.8
Gradd	9	5	8	7

Gwaharddiadau parhaol a phenodol o ysgolion uwchradd

Gwaharddiadau parhaol (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2008	**2009**	**2010**	**2011**	**2012**	**2013**	**2014**
Abertawe	0.9	0.9	0.55	0.2	0.29	(0-0.5) 2 - yn rhy isel i'w gyhoeddi	0.41 (5 - pob ysgol uwchradd)
Cymru	1.0	0.9	0.8	0.7	0.5	0.5	
Gradd	-	9	12fed ar y cyd	9	15fed ar y cyd	6ed ar y cyd	

Tymor penodol pum niwrnod neu lai (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2008	**2009**	**2010**	**2011**	**2012**	**2013**	**2014**
Abertawe	77.3	71.0	62.3	63.4	54.7	45.1	56.5
Cymru	70.5	68.6	66.4	67.7	66.6	57.2	
Gradd	16	17	13	14	10	9	

Tymor penodol o chwe diwrnod neu fwy(cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2008	**2009**	**2010**	**2011**	**2012**	**2013**	**2014**
Abertawe	9.0	7.8	5.8	6.9	6.5	6.1	4.1
Cymru	7.7	6.4	6.3	6.0	5.3	4.0	
Gradd	14	15	12	14	16	18	

Perfformiad Chwartel

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen				
Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
2010				
2011				
2012	13	23	24	22
	15.9%	28.0%	29.3%	26.8%
2013	7	19	30	21
	9.1%	24.7%	39.0%	27.3%
2014	16	16	29	17
	20.5%	20.5%	37.2%	21.8%

Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2				
Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
2010	21	20	23	19
	25.3%	24.1%	27.7%	22.9%
2011	20	25	23	14
	24.4%	30.5%	28.0%	17.1%
2012	20	22	25	15
	24.4%	26.8%	30.5%	18.3%
2013	17	24	19	17
	22.1%	31.2%	24.7%	22.1%
2014	14	21	28	14
	18.2%	27.3%	36.4%	18.2%

Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3				
Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
2010	5	3	2	5
	33.3%	20.0%	13.3%	33.3%
2011	6	3	2	4
	40.0%	20.0%	13.3%	26.7%
2012	5	4	3	2
	35.7%	28.6%	21.4%	14.3%
2013	5	3	3	3
	35.7%	21.4%	21.4%	21.4%
2014	2	4	5	3
	14.3%	28.6%	35.7%	21.4%

Trothwy Lefel 1 Cyfnod Allweddol 4				
Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
2010	4	4	1	6
	26.7%	26.7%	6.7%	40.0%
2011	5	2	3	5
	33.3%	13.3%	20.0%	33.3%
2012	4	6	2	3
	26.7%	40.0%	13.3%	20.0%
2013	4	6	2	2
	28.6%	42.9%	14.3%	14.3%
2014	2	4	5	3
	14.3%	28.6%	35.7%	21.4%

Trothwy lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg				
Blwyddyn	**Ch1**	**Ch2**	**Ch3**	**Ch4**
2010	8	3	1	3
	53.3%	20.0%	6.7%	20.0%
2011	8	2	2	3
	53.3%	13.3%	13.3%	20.0%
2012	7	6	0	2
	46.7%	40.0%	0.0%	13.3%
2013	10	0	2	2
	71.4%	0.0%	14.3%	14.3%
2014	8	3	2	1
	57.1%	21.4%	14.3%	7.1%

Sgôr Bwyntiau wedi'i Chapio Cyfnod Allweddol 4				
Blwyddyn	Ch1	**Ch2**	**Ch3**	**Ch4**
2010	8	2	1	4
	53.3%	13.3%	6.7%	26.7%
2011	5	5	0	5
	33.3%	33.3%	0.0%	33.3%
2012	6	4	2	3
	40.0%	26.7%	13.3%	20.0%
2013	6	5	2	1
	42.9%	35.7%	14.3%	7.1%
2014	6	6	1	1
	42.9%	42.9%	7.1%	7.1%

Cyfnod Allweddol 4 - Saesneg				
Blwyddyn	Ch1	**Ch2**	**Ch3**	**Ch4**
2010	7	3	2	3
	46.7%	20.0%	13.3%	20.0%
2011	7	1	2	5
	46.7%	6.7%	13.3%	33.3%
2012	8	2	3	2
	53.3%	13.3%	20.0%	13.3%
2013	4	5	2	3
	28.6%	35.7%	14.3%	21.4%
2014	5	3	3	3
	35.7%	21.4%	21.4%	21.4%

Mathemateg Cyfnod Allweddol 4				
Blwyddyn	Ch1	**Ch2**	**Ch3**	**Ch4**
2010	8	1	3	3
	53.3%	6.7%	20.0%	20.0%
2011	7	2	3	3
	46.7%	13.3%	20.0%	20.0%
2012	8	5	0	2
	53.3%	33.3%	0.0%	13.3%
2013	7	6	1	0
	50.0%	42.9%	7.1%	0.0%
2014	8	2	3	1
	57.1%	14.3%	21.4%	7.1%

Darn o Adroddiad Blynyddol Estyn mis Ionawr 2013 - Deilliannau Arolygiadau mewn Awdurdodau Lleol

Performance of schools across all local authorities

The distribution of inspection grades awarded to schools for each key question in each local authority

2010-2011 to 2012-2013